# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Ionawr 2005

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â diswyddo Christine Gwyther, y Gweinidog Amaeth, ym mis Gorffennaf 2000. (WAQ40955)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phenderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i dynnu'n ôl o Ganolfan Ewropeaidd Cymru. (WAQ40956)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth â Whitehall yn ymwneud â chau swyddfeydd yr Asiantaeth Budd-daliadau yng Nghymru. (WAQ40961)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â ffurfio clymblaid Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2000. (WAQ40971)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud ag ymddiswyddiad Tom Middlehurst AC fel Ysgrifennydd Addysg Ôl-16 ym mis Hydref 2000. (WAQ40972)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â diswyddo Peter Law a Rosemary Butler o Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2000. (WAQ40973)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU yng nghyswllt ceisiadau ar gyfer deddfwriaeth 'Cymru yn unig' yn Araith y Frenhines, bob blwyddyn ers 1999. (WAQ40979)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth gan Aelodau Seneddol Llafur yn ymwneud â diswyddo Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Ionawr 2005. (WAQ40980)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru

gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Prif Weinidog Cymru a'r Prif Weinidog yn ymwneud â chanfyddiadau Adroddiad Comisiwn Richard. (WAQ40949)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yng nghyswllt canfyddiadau Adroddiad Comisiwn Richard. (WAQ40950)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â nifer y gweision sifil a gaiff eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o flwyddyn i flwyddyn, ers mis Mai 1999. (WAQ40953)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'i safbwynt ar refferendwm ar bwerau'r Cynulliad. (WAQ40982)

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod gwybodaeth am apêl y Tswnami ar gael i bawb yng Nghymru. (WAQ41030)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phresenoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y digwyddiadau i gofio D-Day yn Normandi ym mis Mehefin 2004. (WAQ40985)

**Nicholas Bourne** (**Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phenodi Cwnsler Cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ40986)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**): A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng swyddfa Prif Weinidog Cymru a Phalas Buckingham yn dilyn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2004. (WAQ40988)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud ag uno Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ40993)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Whitehall yng nghyswllt cais Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ddydd Gwyl Dewi fod yn Wyl Banc yng Nghymru. (WAQ40995)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r polisi o rwygo ffeiliau adrannol yn y cyfnod rhwng pasio Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) nes iddi ddod i rym fis Ionawr 2005. (WAQ40998)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r gost o gyflogi cynghorwyr arbennig i Lywodraeth

Cynulliad Cymru ers mis Mai 1999. (WAQ41011)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn rhoi manylion y gost o weithredu pob un o '10 prif addewid' y Blaid Lafur yn ystod tymor 2003-2007 y Cynulliad. (WAQ41028)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinidogaeth Amddiffyn yng nghyswllt datblygu RAF Sain Tathan ym Mro Morgannwg yn y dyfodol. (WAQ41016)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Trysorlys ynghylch effaith prisiau tanwydd uchel ar Gymru. (WAQ41018)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn dangos cost rhedeg ceir Gweinidogion, o flwyddyn i flwyddyn, ers creu'r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ41022)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn dangos nifer a chost y tripiau dramor a wnaed gan bob un o Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, o flwyddyn i flwyddyn, ers mis Mai 1999. (WAQ41029)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa Prif Weinidog Cymru, o flwyddyn i flwyddyn, ers creu'r swydd. (WAQ41023)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, o flwyddyn i flwyddyn, ers creu'r swydd. (WAQ40944)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phenodi cadeirydd newydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (WAQ40987)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â dirwyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben. (WAQ41019)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ynghylch dyfodol yr olaf. (WAQ41021)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau ynghylch y bwlch CMC rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. (WAQ40970)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch cymorth i gyn-weithwyr Allied Steel and Wire. (WAQ40974)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â rhan y gwasanaeth sifil yn yr anghydfod rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a BBC Cymru ynghylch eitem newyddion ar gyllid Ewropeaidd ym mis Ionawr/Chwefror 2004. (WAQ40978)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r penderfyniad i sefydlu ffermydd gwynt mewn ardaloedd sensitif o Gymru. (WAQ40981)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyfrannu at drosolwg yr Adran Masnach a Diwydiant ar gyfathrebu adnewyddadwy. (WAQ40901)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A all y Gweinidog gadarnhau pryd fydd gwasanaethau band eang ar gael yn ardal Aberaeron yng Ngheredigion. (WAQ40929)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o boblogaeth Cymru o oedran gweithio sy'n gweithio mewn gwirionedd a beth yw'r cyfartaledd ar gyfer y DU. (WAQ40930)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd canran ffyniant y pen Cymru o'i chymharu â chyfartaledd y DU, ar gyfer pob blwyddyn yn y 10 mlynedd hyd at a chan gynnwys 2003. (WAQ40931)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd y targed ar gyfer canran ffyniant y pen Cymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU ar gyfer 2001, 2002 a 2003 a beth yw'r targed ar gyfer y ganran yn 2010. (WAQ40932)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos y cynnydd yn swyddi'r sector cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn ers creu'r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ41008)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos y gostyngiad mewn swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru bob blwyddyn ers creu'r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ41009)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd ynghylch cysylltiadau ffordd a rheilffordd newydd. (WAQ41014)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phenodi Prif Weithredwr newydd Awdurdod Datblygu Cymru. (WAQ41015)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Trysorlys ynghylch cyllid Ewropeaidd i Gymru yn y dyfodol. (WAQ41017)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, o flwyddyn i flwyddyn, ers creu'r swydd. (WAQ41026)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o golledion o ran swyddi a gofnodwyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, bob blwyddyn ers 1999. (WAQ40909)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o swyddi gweithgynhyrchu a grëwyd yng Nghymru bob blwyddyn ers 1999. (WAQ40905)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o swyddi gweithgynhyrchu a gollwyd yng Nghymru bob blwyddyn ers 1999. (WAQ40906)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o swyddi a grëwyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, bob blwyddyn ers 1999. (WAQ40908)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o swyddi gweithgynhyrchu a grëwyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, bob blwyddyn ers 1999. (WAQ40907)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o golledion o ran swyddi gweithgynhyrchu a gofnodwyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, bob blwyddyn ers 1999. (WAQ40904)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl a gyflogwyd yn y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, bob blwyddyn ers 1999. (WAQ40903)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â chost a goblygiadau staffio darparu brecwast am ddim mewn ysgolion i blant cynradd. (WAQ40965)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Faint o weithiau ac ar ba ddyddiadau yn ystod 2004 wnaeth y Gweinidog neu ei swyddogion gysylltu â Chyngor Chwaraeon Cymru mewn

perthynas â chaeau chwarae ysgolion. (WAQ40897)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Faint o weithiau ac ar ba ddyddiadau yn ystod 2004 wnaeth y Gweinidog neu ei swyddogion gysylltu â Chymdeithas Genedlaethol Caeau Chwarae Cymru mewn perthynas â chaeau chwarae ysgolion. (WAQ40896)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw'n bwriadu gweithredu ar y cynigion yn nogfen ymgynghori mis Chwefror 2004 (Gweithredu Darpariaethau Llywodraethu Ysgolion Newydd yn Neddf Addysg 2002) i gyfuno swyddogaethau'r llywodraethwyr cydetholedig a'r llywodraethwyr cydetholedig ychwanegol i ddod yn llywodraethwyr cymunedol, ac os felly pryd. (WAQ40902)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y lleoedd rhan-amser a llawnamser sydd ar gael mewn ysgolion meithrin ar gyfer plant dwyflwydd, dwyflwydd a hanner a theirblwydd oed ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. (WAQ40892)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer cynlluniau peilot y cyfnod sylfaen fesul ardal awdurdod lleol yng Nghymru. (WAQ40894)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch canlyniadau cyflwyno ffïoedd ychwanegol amrywiol yng Nghymru. (WAQ40999)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, prifysgolion a chyrff myfyrwyr ynghylch cyflwyno ffïoedd ychwanegol amrywiol yng Nghymru. (WAQ41000)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu. (WAQ41025)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â bygythiad llifogydd mewn cymunedau yng Nghymru. (WAQ40983)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu. (WAQ40947)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl Swyddogion y Trywydd Cenedlaethol ac ar ba sail y cânt eu cyflogi. (WAQ40898)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A yw'r Gweinidog wedi gosod terfyn ar nifer

y rhai a gyflogir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. (WAQ40899)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Beth yw nifer yr erwau o dir tocsig/halogedig ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. (WAQ40900)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithredu cynllun y taliad sengl yng Nghymru. (WAQ40915)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y bydd un camgymeriad yn un o ddogfennau cynllun y taliad sengl yn arwain at golledion i'r ffermwr dan sylw am gyfnod o 10 mlynedd. (WAQ40916)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa fesurau trawsgydymffurfio sy'n effeithio ar y taliad sengl (WAQ40917)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithredu'r gyfarwyddeb stoc trig. (WAQ40918)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ystyried rhoi prawf TB blynyddol i wartheg. (WAQ40919)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa fesurau sydd ar gael i ddelio â TB mewn gwartheg. (WAQ40920)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r diwydiant yswiriant yng nghyswllt yswirio buchesi yng Nghymru rhag TB. (WAQ40921)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yng nghyswllt gweithredu deddfwriaeth pasbortau ceffylau yng Nghymru. (WAQ40922)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yng nghyswllt dwyn defaid yng Nghymru. (WAQ40923)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd oed ffermwyr Cymru ar gyfartaledd ym mhob un o'r blynyddoedd ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ40924)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau â'r Gweinidog cyfatebol yn San Steffan yn ymwneud â chyflwyno profion TB ar gyfer buchesi yn Lloegr ac, os felly, a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny. (WAQ40925)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr

effaith a gaiff ehangu'r UE ymhellach ar amaethyddiaeth yng Nghymru. (WAQ40926)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar basbortau gwartheg (WAQ40927)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yng nghyswllt ceisiadau hwyr ar gyfer pasbortau gwartheg. (WAQ40928)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001. (WAQ40994)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau gwahardd hela â chwn i Gymru. (WAQ40997)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r 'estyniad' a gynigiwyd ym maes parcio'r Cynulliad fel dewis arall i'r siambr newydd. (WAQ40957)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r gost y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei dalu am hysbysebu, o flwyddyn i flwyddyn, ers mis Mai 1999. (WAQ40948)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos y gost y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei dalu am letygarwch, o flwyddyn i flwyddyn, ers 1999. (WAQ40951)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi costau manwl y Dyfarndaliad am Wasanaeth a Roddwyd, a dalwyd i gynghorwyr a ymddeolodd yn etholiadau lleol mis Mehefin 2004. (WAQ40959)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â datblygu siambr newydd y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys costau, ers i'r prosiect gychwyn. (WAQ40989)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Phartneriaeth Richard Rogers ynghylch siambr newydd y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ40990)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r

ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyn arweinydd Cyngor Sir Caerdydd, y Cyngh Russell Goodway, ynghylch cyllid llywodraeth leol a lefelau'r dreth gyngor. (WAQ40991)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyn arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Jeff Jones, ynghylch cyllid llywodraeth leol a lefelau'r dreth gyngor. (WAQ40992)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth â'r Trysorlys yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio £22 miliwn a glustnodwyd ar gyfer biliau'r dreth gyngor ar leihau'r broblem o flocio gwelyau. (WAQ40996)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos y cynnydd yng nghostau gweinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ers mis Mai 1999. (WAQ41010)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r modd y byddai ailfandio'r dreth gyngor yn cael ei gyflawni yng Nghymru, a goblygiadau gwneud hynny o ran cost. (WAQ41012)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth â Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau ailfandio'r dreth gyngor yn Lloegr, yn dilyn y profiadau a gafwyd yng Nghymru. (WAQ41013)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu. (WAQ41027)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau ynghylch nifer y gwelyau mewn ysbytai yn y GIG yng Nghymru, o flwyddyn i flwyddyn, ers mis Mai 1999. (WAQ40954)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r penderfyniad i ddiddymu'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru (WAQ40958)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r galwadau am ymchwiliad cyhoeddus llawn i farwolaeth y plentyn 10 mlwydd oed, Robbie Powell. (WAQ40960)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r penderfyniad i symud gwasanaethau niwrolawdriniaeth bediatrig o Abertawe i Gaerdydd. (WAQ40962)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â defnyddio nyrsys asiantaeth o wledydd tramor i lenwi swyddi gwag yn y GIG yng Nghymru. (WAQ40966)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â phenderfyniad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i beidio ag ymyrryd â'r gwaith o redeg y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd. (WAQ40967)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â phenderfyniad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i beidio ag ymyrryd â'r gwaith o redeg y gwasanaethau cymdeithasol ym Mlaenau Gwent. (WAQ40968)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â chyhoeddi cyfraddau heintio MRSA mewn ysbytai yng Nghymru. (WAQ40969)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y cyn-Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dr Kim Howells AS yn ymwneud ag amseroedd aros mewn ysbytai yng Nghymru ym mis Chwefror 2004. (WAQ40975)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Jon Owen Jones AS yn ymwneud ag achos Mrs Theresa Debono. (WAQ40976)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y cyn-Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r holl ASau Llafur yng Nghymru yn ymwneud ag amseroedd aros y GIG. (WAQ40977)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau iechyd yn ymwneud â'r prinder deintyddion GIG yng Nghymru. (WAQ40984)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y mae Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion yn bwriadu gweithredu argymhellion Cyngor Iechyd Cymuned Ceredigion o ran atgyfnerthu gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol, gwella cysylltiadau telathrebu mewn canolfannau allgymorth a darparu clinigau clefydau cronig sy'n cael eu harwain gan nyrs/therapydd mewn rhai lleoliadau yng Ngheredigion. (WAQ40933)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i neilltuo gwelyau yn y GIG ar gyfer triniaethau dewisol. (WAQ40936)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynllun strategol cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth iechyd. (WAQ40937)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar nifer y triniaethau dewisol sydd wedi'u cwblhau mewn cyfleusterau preifat fel rhan o Gynllun yr Ail Gynnig, ac a wnaiff restru enwau'r cyfleusterau hynny. (WAQ40938)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar y tariffau a dalwyd ar gyfer pob un math o driniaeth ddewisol yn y GIG, ac a wnaiff fanylu ar unrhyw wahaniaethau rhwng y rhain a'r tariffau a dalwyd fel rhan o Gynllun yr Ail Gynnig. (WAQ40939)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan y Gweinidog unrhyw fwriad i adolygu'r tariffau a gaiff eu talu am driniaethau dewisol. (WAQ40940)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar y gost ar gyfer pob un math o driniaeth ddewisol. (WAQ40941)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu perfformiad y Byrddau Iechyd Lleol. (WAQ40942)

**Sandy Mewies (Delyn):** Pa gyngor y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i awdurdodau cynllunio Cymru ynghylch agweddau cynllunio ar ffonau symudol ac iechyd, ac a fydd y cyngor hwn yn newid o ystyried Adroddiad Stewart ar y pwnc, a gafodd ei ddiweddaru'n ddiweddar. (WAQ40910)

**Sandy Mewies (Delyn):** Pa gyngor y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i ysgolion ynghylch agweddau cynllunio ar ffonau symudol ac iechyd, ac a fydd y cyngor hwn yn newid o ystyried Adroddiad Stewart ar ffonau symudol ac iechyd, a gafodd ei ddiweddaru'n ddiweddar. (WAQ40911)

**Sandy Mewies (Delyn):** Pa gyngor y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd ynghylch agweddau cynllunio ar ffonau symudol ac iechyd, ac a fydd y cyngor hwn yn newid o ystyried Adroddiad Stewart ar ffonau symudol ac iechyd, a gafodd ei ddiweddaru'n ddiweddar (WAQ40912)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig yng nghyswllt clefyd y galon ym mhob ardal Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru. (WAQ40893)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o fferyllfeydd yn ystod y chwe mis diwethaf sydd wedi i) gwneud cais i gau a ii) wedi cael caniatâd i gau yng Ngheredigion a pha rai ydynt. (WAQ40943)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau iechyd yn ymwneud ag amseroedd aros mewn ysbytai yng Nghymru. (WAQ41001)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweinidog Plant y DU, Mrs Margaret Hodge AS, yn ymwneud â rôl Comisiynydd Plant Cymru. (WAQ41002)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â chyhoeddi amseroedd aros mewn ysbytai yng Nghymru. (WAQ41003)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â defnyddio'r sector preifat i ostwng amseroedd aros mewn ysbytai yng Nghymru. (WAQ41004)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â defnyddio ysbytai yn Lloegr i ostwng amseroedd aros yn y GIG yng Nghymru. (WAQ41005)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â defnyddio ysbytai tramor i ostwng amseroedd aros yn y GIG yng Nghymru. (WAQ41006)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â defnyddio cyllid preifat i foderneiddio ystâd y GIG yng Nghymru. (WAQ41007)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweinidog Plant y DU, Mrs Margaret Hodge AS, yn ymwneud â rôl Comisiynydd Plant Cymru. (WAQ41020)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n dangos costau gweinyddol swyddfa'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu. (WAQ41024)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n dangos costau gweinyddol swyddfa'r Gweinidog dros Gyfiawnder

Cymdeithasol, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu. (WAQ40945)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Gartref yn ymwneud â chyllid ar gyfer gwasanaethau'r heddlu yng Nghymru. (WAQ40952)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth â'r Post Brenhinol yn ymwneud â chau swyddfeydd post yng Nghymru. (WAQ40963)

**Sandy Mewies (Delyn):** Pa berthynas y mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhagweld y caiff â'r Asiantaeth Troseddu Cyfundrefnol Difrifol unwaith y caiff ei chreu o ganlyniad i'r Mesur Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu. (WAQ40913)

**Kirsty Williams (Aberhonddu a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i nodi faint o arian sydd ar gael gan y Cynulliad ar gyfer prosiectau yn y gymuned i hybu cysylltiadau hiliol cadarnhaol. (WAQ40914)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y prosiectau a ariennir yn Nhor-faen fel rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf ynghyd â swm yr arian a ddyrennir i bob prosiect. (WAQ40895)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gynnig i gymunedau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i osod teledu cylch cyfyng. (WAQ40934)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth wnaeth trafodaethau mwyaf diweddar y Gweinidog â chyfarwyddwr Canolfan Byd Gwaith Cymru ei ddatgelu am effaith cau'r swyddfeydd budd-daliadau yn Aberystwyth a Chaerfyrddin ar y cwsmeriaid a'r staff. (WAQ40935)

## *Gofyn i'r Trefnydd*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n dangos costau gweinyddol swyddfa'r Trefnydd, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu. (WAQ40946)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â'r ddadl y penderfynwyd peidio â'i chynnal ar drefniant y seddi yn siambr y Cynulliad. (WAQ40964)